MonLife

Ar gyfer meddwl, corff ac enaid ein cymuned
For the mind, body and soul of our community



# Dolydd y Castell

## Canlyniadau Ymgynghoriad Cyhoeddus Teithio Llesol



# Ymgynghoriad

**Mae'r Fenni yn un o'r safleoedd strategol allweddol yn Sir Fynwy a hefyd y trefi ar y gororau. Mae'n gweithredu fel prif ganolfan fanwerthu, addysgol a diwylliannol ardal wledig helaeth, gan ymestyn i hen ardaloedd awdurdod Gwent Fwyaf a Swydd Henffordd.**

**Mae A4143 Heol Merthyr yn cysylltu dwy gymuned y Fenni a Llan-ffwyst drwy bont bresennol Llan-ffwyst sy'n croesi'r Afon Wysg. Mae Dolydd y Castell a Chaeau Ysbyty yn ardaloedd hamdden pwysig i'r gymuned ac mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus a llwybrau 42 a 46 y Rhwydwaith Seiclo Cenedlaethol yn eu croesi.**

**Mae'r cynigion yn edrych ar osod pont newydd arbennig i gerddwyr a beiciau pedal ar draws yr Afon Wysg, sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio, ac uwchraddio'r llwybrau cysylltu drwy Ddolydd y Castell a Chaeau Ysbyty i safonau teithio llesol. Nod y cynllun yw gwella mynediad i'r holl ddefnyddwyr i Ddolydd y Castell drwy fannau mynediad/gadael wedi eu huwchraddio.**


## Canlyniadau ...

# Drwyddi ...


**566**
ymateb

**19:33**
amser cyfartalog llenwi


## C1. Beth yw eich prif ddiben am ddefnyddio Dolydd y Castell a Chaeau Ysbyty?



## C2. Pa mor aml ar gyfartaledd ydych chi'n defnyddio Dolydd y Castell a Chaeau Ysbyty?





## C3. Pa mor bell yw hi o'r lle yr ydych fel arfer yn teithio ohono i/o Ddolydd y Castell a Chaeau Ysbyty?




## C4. Sut ydych chi'n teithio i Ddolydd y Castell a Chaeau Ysbyty fel arfer?

- Cerdded
- Car Preifat
- Beic Pedal
- Arall
- Bws
- Sgwter symud neu gadair olwy
- Tacsi (0%)




## C5. Os nad ydych yn cerdded na seiclo, dywedwch pam?




- Angen cario offer
- Dim yn ddiogel
- DyC ddim yn hygyrch
- Cymryd rhy hir
- Arall

## C6. A oes unrhyw leoedd neu fannau ar y ffordd y credwch sy'n anodd cerdded, seiclo neu ddefnyddio sgwter symud / cadair olwyn/ cadair wthio arnynt?

**566**
ymateb

**38%**
yn ateb pont

**9%**
yn ateb clwydi

### Dynodwyd pont Llan-ffwyst fel prif flaenoriaeth wrth fynd i Dolydd y Castell / Caeau Ysbyty:

### Rhai o'r detholiad eang o sylwadau a gafwyd:

*"Mae cryn nifer o rannau o'r llwybr sy'n anodd ar sgwter symudedd, gan fod y llwybr wrth ymyl yr afon yn lleidiog a Phont Llan-ffwyst ei hun yn anodd wrth geisio mynd â chŵn am dro a mynd â phlant ar feiciau, yn arbennig pan mae cerddwyr/cŵn yn cerdded tuag atoch."*

*"Nid yw'r darnau concrit ar y prif lwybr yn ddymunol i seiclo arnynt ac mae'r llwybr yn rhu gul, mae'n rhaid i chi seiclo ar y glaswellt i ganiatau cerddwyr i basio. Mae'r clwydi mynediad/clwydi mochyn yn anodd hefyd, mae'n rhaid i chi ddod oddi ar y beic, ei wthio i'r ffens, symud yn ôl a'i dynnu allan wedyn."*


*"Rwy'n defnyddio cadair olwyn a dyw'r clwydi presennol ddim yn gweithio i fi. Mae mor anodd mynd mewn a mas. Rwy'n hoffi medru mynd i bob rhan o'r dolydd, fel y dylem fedru gwneud."*

*"Rwy'n hoffi mynd â'r ci am dro ar y caeau. Mae'n beryglus ac anghyffорddus cerdded ar draws y bont. Hoffwn seiclo ond ddim yn gwneud hynny os nad oes fawr o draffig gan ei fod yn beryglus."*


*"Mae cerdded dros brif bont yr afon a cheisio croesi'r ffordd yn y naill gylchfan a'r llal yn anodd yn arbennig gyda chi."*

## C7. Yng nghyswllt Pont Llanffwyst ac ardal Dolydd y Castell/Caeau Ysbyty i ba raddau ydych chi'n cytuno neu anghytuno gyda'r datganiadau dilynol?


Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Niwtral | Cytuno | Cytuno yn Gryf




Mae angen gwella'r llwybrau drwy Dolydd y Castell a Chaeau Ysbyty gan nad ydynt yn darparu i bawb




Mae cerbydau'n teithio'n rhy gyflym ar Heol Merthyr a thros Bont Llan-ffwyst.




Mae nifer y cerbydau a'r llwybrau troed cul ar Bont Llan-ffwyst yn golygu nad yw'n ddiogel i gerddwyr.

## C8. Rhowch eich barn ar gyfer cynigion Teithio Llesol pont Llan-ffwyst drwy ddefnyddio'r system 5 pwynt

| GWAEL IAWN | GWAEL | NEITHER | DIM | DA IAWN |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 14% | 7% | 11% | 20% | 48% |

**566** ymateb

**3.81** Sgor vcyfartalog

## C9. Ydych chi'n meddwl fod angen gwella unrhyw beth arall ynghylch cynigion cynllun Pont Teithio Llesol Llan-ffwyst a chysylltiadau cysylltiedig?

**484** ymateb

### Rhai o'r detholiad eang o sylwadau a gafwyd:

*"Dylai hefyd ystyried ffordd gerdded / llwybr seiclo rhwydd a diogel o Lan-ffwyst i uno gyda'r hen lwybr reilffordd (llwybr seiclo Llan-ffwyst i Frynmawr."*

MWY O YMATEBION

*"Y peth pwysicaf yw sut bydd seiclwyr a cerddwyr yn croesi Heol Merthyr ar ochr Llan-ffwyst o'r Afon Wysg, y man gwaethaf yw rhwng y Bridge Inn a'r tŷ gyferbyn. Gwn nad yw hyn yn rhan o'r cynllun sy'n cael ei ystyried yma ond heb ddatrysiad da i hyn, ychydig o bwynt sydd mewn cael y bont newydd. Efallai groesfan sebra neu pelican wrth y gylchfan yn ymyl Waitroess ar draws y Wysg. Does dim byd call wedi ei awgrymu hyd yma."*

*"Dylai hefyd ystyried ffordd gerdded/llwybr seiclo diogel a rhwydd o Llan-ffwyst i ymuno gyda'r hen lwybr reilffordd (llwybr seiclo Llan-ffwyst i Frynmawr)."*

*"Ers talwm roedd yr angen i gerddwyr a seiclwyr groesi'r Wysg ym Mhont Llan-ffwyst i gael ei ateb drwy ailgreu pont ar aliniad yr hen lwybr rheilffordd oedd yn croesi'r afon lan yr afon i'r hen bont. Nid wyf yn glir pam nad oes symud ymlaen gyda'r syniad hwn gan y byddai'n edrych yn well na'r cynigion presennol fydd yn creu newid mawr i gymeriad ac ymddangosiad y pen hwn o Ddolydd y Castell."*

*"Cylchfan Waitrose, ffordd lithro oddi ar Blaenau'r Cymoedd, yn croesi Heol Merthyr. Does dim pwynt i'r gweddill heb ddatrys hyn."*

*"Mae bron yn amhosibl croesi Heol Merthyr rhwng Pont Llanffwyst a'r gylchfan pan fydd traffig ar ei waethaf ac felly mae hefyd angen gwelliannau i gyfleusterau croesi i fynd ymlaen at lwybr 46 Seiclo Cenedlaethol fel rhan o unrhyw gynllun holistig."*

*"Rwyf yn gaeth i gadair olwyn oherwydd clefyd Parkinson ac arthritis yn fy mhen gliniau. Rwy'n byw ar xxxxx ac yn medru mynd ar ben fy hun yng nghanol y dref sydd wedi pedestraneiddio. Byddwn wrth fy modd mynd i Ddolydd y Castell i fwynhau'r olygfa a'r awyr iach a'r afon. Ar hyn o bryd mae'r clwydi mochyn yn fy atal rhag gwneud hynny ac mae'r llwybr yn ymyl yr afon yn rhy anwastad i fy olwynion. Hoffwn fedru parhau ar fy nhaith dros yr afon i Llan-ffwyst ond yn methu gwneud hynny oherwydd bod y llwybr troed ar draws y bont mor gul a'r clwydi mochyn ar y llwybr troed ar draws y bont. Ni allaf deitho lawr Heol Merthyr oherwydd bod y llwybr troed yn gul neu fod ceir wedi parcio yno."*

*"Mae angen gwella'r dewis o ddeunyddiau: mae fandaliaid yn aml yn rhoi pren ar dân a fyddai'n gwneud y bont yn beryglus ar unwaith, sonnir am ddur gloyw sy'n ddrud – pam nad defnyddio dyluniad yn defnyddio Corten fel ar yr A465."*

*"Mae'r bont newydd yn llawer rhy bell oddi wrth bont yr afon. Bydd yn ddolur llygad ar draws y dolydd ond hefyd mae'n rhy bell i ffwrdd, ni fydd o unrhyw ddefnydd i gerddwyr sy'n cyrraedd cylchfan y bont o Heol Aberhonddu. Mae llawer o gerddwyr eisiau mynd i fynwent y dref, y rhandiroedd, y feithrinfa gerddi, ac yn cerdded heibio'r lleoedd hyn i lan yr afon, camlas, y Blorens, llwybrau heol tram. Y broblem fawr yw gorfod croesi'r brif heol gyda traffig dibaid yn y ddau gyfeiriad."*

*"Mae rhannu llwybr ar gyfer seiclwyr a cherddwyr yn anodd os nad yw'r llwybr wedi ei farcio'n glir."*

## C10. Rhowch eich barn ar gynigion cynllun Dolydd y Castell ddrwy ddefnyddio system graddio 5 pwynt.

| GWAEL IAWN | GWAEL | DIM | DA | DA IAWN |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 19% | 11% | 13% | 20% | 37% |

**566** ymateb

**3.45** Sgor cyfartalog

## C11. A oes unrhyw beth arall yr ystyriwch sydd angen ei wella yng nghyswllt cynigion Dolydd y Castell?

**460** ymateb


### Rhai o'r detholiad eang o sylwadau a gafwyd:

*"Fel dôl ddŵr, bydd angen i ba bynnag a lwybr a osodir fod yn gydnaws o ran lliw, tebyg i frown llaid ysgafn, er mwyn peidio amharu ar ymddangosiad y Dolydd. Bydd angen i gridiau gwar-theg fod yn ddiogel i seiclwyr, felly mwy fel y rhai ar lwybr Seiclo Brynmawr i'r Fenni."*

MWY O YMATEBION →

- *Peidiwch â gadael i feiciau modur fynd ar y bont teithio llesol."*
- *"Gofynnir i chi sicrhau y gall cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd ddefnyddio'r llwybrau."*
- *"Rwy'n anghytuno'n gryf gyda'r cynnig i gynnwys llwybr 3m o led ar draws Dolydd y Castell. Mae hyn yn rhy llydan. Rwy'n ofni hefyd y bydd yn rhoi ffafriaeth i seiclwyr dros gerddwyr."*
- *"Rydw i hefyd yn anhapus am y cynnig i oleuo'r llwybr, fydd er anfantais i fywyd gwyllt ar yr afon."*
- *"Mae'n ddechrau arni – felly PEIDIWCH â gadael i'r gwrthwynebwyr eich rhwystro – roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddigon drwg ond mae'n anhygoel fod rhai o'r bobl leol yn erbyn y cynllun call a fforddiadwy yma."*
- *"Fawr iawn o effaith ar gyflwr blodau ac anifeiliaid y dolydd. Rwy'n meddwl ei fod yn gynllun gwych. Rydw i wedi dod o Fryste lle mae llwybr 3m o led ar gyfer seiclwyr a cherddwyr drwy goridorau gwyrdd yn cael eu mwynhau a defnydd da ohonynt."*
- *"Mae'n hardd fel y mae felly dangoswch gydymdeimlad at hynny".*
- *"Byddai'n wych cael llwybr crwn cyfeillgar i gadair olwyn o amgylch y dolydd. Mae'r llwybr o'r dolydd at y Castell yn wastad a pheryglus ac yn anodd iawn i seiclo neu wthio cadair olwyn arno."*
- *"Mae'n anodd mynd â beic cargo a phlant arno ar y clwydi allan o'r dolydd. Mae'r wyneb gro hefyd yn gwneud hyn yn anos."*

## C12. Rhowch eich barn ar gynllun cynigion Caeau Ysbyty yn defnyddio'r system graddio 5 pwynt.




**566** ymateb

**3.57** Sgor Cyfartalog

## C13. A oes unrhyw beth arall a ystyriwch sydd angen ei wella ynghylch cynigion Cynllun Caeau Ysbyty?

**431** ymateb

### Rhai o'r detholiad bras o sylwadau a gafwyd:

*"Hollol wych, treuliais flynyddoedd yn mynd i'r gwaith ar fy meic ac anaml oeddwn i'n mynd drwy Ddolydd y Castell. Byddai hyn yn wneud gwahaniaeth enfawr a'i gwneud yn llawer rhwy-ddach i gerdded a seiclo i'r orsaf drenau."*

MWY O YMATEBION →

*"Peidiwch â chyfyngu gormod ar gyfer y rhai ohonom gyda chŵn. Maent angen ymarfer oddi ar eu tennyn, fel y maent wedi wneud am gannoedd o flynyddoedd yn yr ardal honno."*

*"Rwy'n credu fod yr hyn a gynigir yma'n wych ac y byddai'n welliant enfawr."*

*"Mae dyluniad da ar y nodweddion a gynigir, yn neilltuol y ramp, yn hanfodol. Byddai'n gamgymeriad mawr i wneud hyn yn ddolur llygad."*

*"Byddai'n wych i gerddwyr ddefnyddio mwy ar ben Caeau Ysbyty. Gellid defnyddio mwy ar y cae drwy annog pobl i ymweld – byddai gwarchodfa bywyd gwyllt, blodau cyfeillgar i wenyn, mainc i gyd yn annog cerddwyr i ddefnyddio'r llwybr yn llawn o'r dolydd drwy stad Caeau Ysbyty."*


*"Rhaid diogelu cerddwyr oddi wrth y seiclwyr. Rwy'n defnyddio'r dolydd bob dydd ond rwy'n credu fod y nifer bresennol o seiclwyr yn beryglus. Byddai gennyf ormod o ofn i'w defnyddio unwaith y byddwch wedi'i gwneud yn drafford beiciau. Wyddoch chi fod seiclwyr yn rhuthro o'r tu ôl heb rybudd ac yn seiclo'n agos iawn. Hyd yn oed gyda chŵn ar dennyn maent yn berygl iddynt. Mae'r rhan fwyaf o bobl rwy'n siarad gyda nhw yn dweud hynny ond yn gwybod ei bod yn wastraff amser sôn amdanynt."*

*"Goleuadau traffig neu groesiad sebra ar yr A40/Heol yr Orsaf."*

*"Byddai lleoedd i eistedd a chymennu cyffredinol y pen hwnnw yn dda ac a allwch chi blannu mwy o goed ar hyd y llwybr os gwelwch yn dda?"*

*"Mae'n syniad rhagorol cysylltu gyda'r orsaf trenau. Gobeithio y bydd hyn yn arwain at well orsaf trenau!"*

## C14. Pan gaiff ei weithredu, a fyddwch yn defnyddio mwy ar y llwybr drwy gerdded, seiclo neu gadair olwyn yn y dyfodol fel canlyniad i'r gwelliannau a gynigir?



**C15.** **Rhowch 5 llythyren gyntaf cod post eich cartref ...**

**92%**
wedi ateb
NP7

# Diolch am gymryd rhan ynr ymgynghoriad, bydd y data a roddir yn helpu i lywio'r camau nesaf yn y broses!

